# Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

**310 - Beirniadaeth Creu Gwefan Bl.6 ac iau (unigol neu Grŵp)**
**Beirniad: Ceri Garrod**

**CYNTAF - Grŵp Blwyddyn 5 a 6 Ysgol y Dderi, Ceredigion.**

Yn amlwg mae yna lawer o waith ymchwil a chasglu gwybodaeth wedi cael ei wneud ar gyfer y wefan yma. Mae'r ddewislen ar dop bob tudalen yn ei wneud yn hawdd iawn i ddefnyddio'r wefan a darganfod gwybodaeth. Hoffwn y defnydd o'r tudalen blaen fel ffordd arall i we-lywio. Mae yna ddefnydd da o luniau a fideos trwy'r wefan, a hoffwn fod y lliwiau yn cyd-fynd a'r wisg ysgol. Da iawn chi!

**AIL - Macsen Mainwaring**

Hoffi'r defnydd o liwiau a lluniau rwyt wedi dewis i gyd fynd a thîm Lerpwl. Defnydd da o fideos, map a linciau i wefannau allanol defnyddiol. Mae'r ddewislen ar dop bob tudalen yn gwneud y wefan yn hawdd i'w ddefnyddio. Yn amlwg rwyt wedi gweithio yn galed yn hel gwybodaeth a chreu'r wefan, da iawn ti!

**TRYDYDD - Grŵp Ysgol Cwrt Henri**

Hoffaf fod lliwiau'r wefan yn cyd-fynd a logo'r ysgol. Mae'r ddewislen ar dop bob tudalen yn gwneud yn hawdd iawn i ddefnyddio'r wefan a darganfod gwybodaeth. Mae'n gynnwys llawer o wybodaeth ddiddorol a defnydd da o luniau i arddangos gwaith celf arbennig y disgyblion. Da iawn chi!

**Eraill - Ysgol Rhos Helyg**

Ymdrech da iawn gan yr ysgol, hoffwn fod y lliwiau a'r ffont yn gyd fynd a'r logo. Mae yna lawer o wybodaeth, ac yn amlwg mae gwaith caled wedi ei wneud yma. Hoffaf y defnydd o’r meddalwedd gwahanol i gyflwyno gwybodaeth. Buaswn yn awgrymu ychwanegu dewislen glir i'w wneud yn haws i ddefnyddio'r wefan a darganfod gwybodaeth